# Cyfrannu at y defnydd o geffylau ar gyfer gwaith amaethyddol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfrannu at y defnydd o geffylau ar gyfer gwaith amaethyddol. Mae'n cynnwys gallu darparu gofal fel mater o drefn ar gyfer ceffylau, paratoi ceffylau ar gyfer gwaith, hybu gofal a lles ceffylau yn ystod eu gwaith, a gofalu amdanynt ar ôl gwaith. Mae gwaith amaethyddol hefyd yn cynnwys gwaith coedwigaeth.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer unrhyw un sy'n gofalu am geffylau a ddefnyddir ar gyfer gwaith amaethyddol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. nodi ceffylau priodol ar gyfer y gwaith amaethyddol a fwriedir, yn unol â math, hyfforddiant, ffitrwydd a nifer
3. nodi harneisiau ac offer sy'n briodol ar gyfer y defnydd a fwriedir
4. cyfrannu at y defnydd o geffylau ar gyfer gwaith amaethyddol trwy baratoi ceffylau, harneisiau ac offer ar gyfer y defnydd a fwriedir
5. cymryd cyfrifoldeb dros weithio gydag eraill a'u goruchwylio wrth baratoi ceffylau, harneisiau ac offer ar gyfer gwaith amaethyddol
6. gofalu am les ceffylau cyn, yn ystod ac ar ôl gwaith amaethyddol
7. cynorthwyo'r gwaith o symud offer i mewn i'r safle cyn eu defnyddio a'u storio ar ôl eu defnyddio
8. glanhau, cynnal gwiriadau a gwaith cynnal a chadw fel mater o drefn, a storio cerbydau rhwng defnydd
9. defnyddio a storio deunyddiau ac offer glanhau, yn unol â'r cyfarwyddiadau
10. sicrhau bod gwastraff yn cael ei waredu'n ddiogel ac yn gywir
11. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn cyfrannu at amaethu tir a chnydau gan ddefnyddio ceffylau a theclynnau amaethyddol ac ar y tir sy'n cael eu tynnu gan geffylau
3. sut i ddewis teclynnau ac offer sy'n cael eu tynnu gan geffylau ar gyfer ystod o waith amaethyddol
4. sut i ddewis yr harnais cywir at y diben a fwriedir
5. sut i ddewis ceffylau at y diben a fwriedir
6. galluoedd tynnu pwysau a chario llwyth ceffylau unigol, a cheffylau niferus mewn perthynas ag ystod o declynnau a thasgau
7. y dulliau o wirio a pharatoi teclynnau, harneisiau a cheffylau at yr ystod o ddefnyddiau a fwriedir, a sut i lanhau, gwneud gwaith cynnal a chadw fel mater o drefn a storio eitemau rhwng defnydd
8. sut i adnabod arwyddion o salwch, cloffni, diffyg ffitrwydd a straen yn y ceffyl cyn, yn ystod ac ar ôl gwaith
9. sut i fonitro lles ceffylau tra'u bod yn gweithio
10. sut i leihau straen yn y ceffyl gwaith
11. sut dylid gwaredu mathau gwahanol o wastraff
12. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
13. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Cyfrannu at y defnydd o geffylau ar gyfer gwaith amaethyddol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq338 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; amaethyddiaeth; coedwigaeth; offer |